# DINESYDD

PAPUR CYMRAEG CAERDYDD A'R CYLCH

141 Rhagfyr/Ionawr 1987-88

# NADOLIG LLAWEN
# A BLWYDDYN NEWYDD DDA



Llun y 'Dolig - Mam a Phlentyn gan Cima

# LLYTHYRAU

CYNGOR Y CELFYDDYDAU

Annwyl Gyfaill,

Mae'r Panel Llenyddiaeth Plant wedi noddi nifer o gyrsiau i awduron plant dros y blynyddoedd. Roedd rhai yn ymwneud ag ysgrifennu i blant yn gyffredinol, a bu eraill yn fwy diweddar yn gyfrwng sefydlu cyfresi newydd fel Cyfres y Coryn a chyfres o nofelau i'r arddegau. Amrywient mewn hyd - o ddiwrnod i benwythnos gyfan a chynhaliwyd y rhan fwyaf mewn gwesty yn ystod misoedd y gaeaf. Y nôd oedd rhoi anogaeth ac arweiniad, darparu cyfle i bobl drafod a'i gilydd ac a golygydd, ac yn bennaf oll i gael llonydd i ysgrifennu. Tystia nifer fawr o awduron i werth y cyrsiau hyn.

Fodd bynnag, hyd yn hyn cynhaliwyd bron y cyfan yng Ngwynedd. Mae'r perygl ein bod wedi esgeuluso'r de ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y prinder o nofelau sy'n cynnwys cefndir a thafodiaith y dê.

Ymgais yw'r llythyr hwn i weld a oes galw am gwrs neu weithdy yn eich ardal chi. Os oes gennych ddiddordeb mewn cwrs o'r fath, a fuasech mor garedig a llenwi yr atodiad ar waelod y llythyr hwn a'i anfon yn ol ataf cyn gynted ag y bo modd.

Yn gywir iawn,

Nan Griffiths,
Swyddog Llenyddiaeth.

---

Enw: ..........................

Cyfeiriad: ....................

...............................

.............Ffon.............

Dymunaf ddod i weithdy i awduron plant.

Fy mhrif ddiddordeb yw:

...............................

Unrhyw wybodaeth arall:

...............................

---

PRIFYSGOL CYMRU

Annwyl Olygydd,

**Cwrs Cefndir 1988**

Tybed a fyddai ganddysgwyr profiadol yn eich ardal ddiddordeb mewn Cwrs Cefndir a gynhelir ym Mawrth 1988 yn Llanbedr Pont Steffan? Neu efallai bod eich darllenwyr yn nabod dysgwyr lleol sydd am wella eu gwybodaeth o'r Gymraeg a'n diwylliant.

Fe'i trefnir gan Ganolfan Dysgu Cymraeg i Oedolion yng Nghaerdydd ar gyfer dysgwyr sydd eisoes yn ddigon sicr eu gafael ar yr iaith lafar ac yn awr am ehangu eu gwybodaeth am Gymru a'i diwylliant yn ogystal a datblygu eu Cymraeg llafar ac ysgrifenedig. Mae'r pwyslais ar ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol yn hytrach nag ar ddysgu'r iaith yn ffurfiol.

Tybed a allwn ofyn, drwy golofnau'r papur, i'ch darllenwyr dynnu sylw dysgwyr lleol at y cwrs hwn?

Os ydych am fwy o fanylion, cysylltwch a Geraint Wilson-Price, Canolfan Dysgu Cymraeg i Oedolion, 22 Heol y Parc, Cathays, Caerdydd (0222) 390980.

Diolch yn fawr.

Yr eiddoch yn gywir,

Geraint Wilson-Price,
Cynorthwyydd i'r Swyddog Ymchwil a Datblygu Dysgu Cymraeg i Oedolion.

---

Fis Medi a Hydref eleni bu'r newyddiadurwraig Siân Gwenllian yn crwydro cyfandir De America. Cafodd gyfle i ymweld â phum gwlad - Brazil, Paraguay, Bolivia, Peru a'r Ariannin. Teithio mewn criw o ddeg oedd hi yn y bedair wlad Ogleddol ac wedyn aeth ar ben ei hun i'r Ariannin ac i Batagonia. Cadwodd ddyddlyfr manwl o'r gwyliau. Yma dyfynnwn gofnod un diwrnod o'i thaith fythgofiadwy.

------

Dolafon,
Patagonia,
Yr Ariannin,
De America.
Hydref 22, 1987

Am dwll o le. Digon tlws mae'n siwr efo'r coed gwyrddion uchel yn gwarchod y ffôs y bu ein cyn-deidiau'n ei hadeiladu mor ddygn flynyddoedd yn ôl. Pontydd bach melynion sy'n croesi'r dwr brown llonydd. Mae'r pentref mor farwaidd a'r dŵr. Be dwi'n mynd i wneud fan hyn am fore cyfan? Dim ond rhyw dair siop a banc sydd yma. Ceffyl yn fancw wedi ei glymu i'r goeden a rhyw olwg be wnai arno fo. Mi wn sut mae'n teimlo. Does dim bws yn ôl am bedair awr. Ond rhaid oedd cael dod i Ddolafon ym mhen eithaf Dyffryn y Gaiman. Yr enw oedd wedi creu'r chwilfrydedd.

"Hotel de Pierce" - duwcs, falle bod na Gymry'n fan yma. Mentro hi mewn i'r bar - ac wrth i dri o ddynion oedd yn llymeitian cwrw (a hithau ond yn unarddeg y bore) droi a syllu'n ddi-groeso, cofiais am gysegredigrwydd gwrywaidd bariau yfed y byd drosto. Ond camu mlaen wnes i a gofyn, mewn llais bach, am baned o goffi. Prysurodd pwtyn o ddyn o tu ôl y bar a'm tywys i'r stafell dros nesaf. Stafell fawr wag, efo cyrtan neilon a dwsin o fyrddau. Daeth y coffi ym mhen hir a hwyr - hwnnw'n gryf a chwerw.

"Turista?" gofynnodd y pwtyn bach tywyll. "Si", meddwn. "Gallesa" meddwn wedyn, rhag ofn bod hynny'n cyfrif. Am y tro cyntaf lledodd gwen ar ei wyneb. John Pierce oedd enw'r Archentwr bach. Ymddiheuro wnaeth o am nad oedd yn siarad Cymraeg gan egluro i'w daid hannu o Gymru. Diflannodd i'r cefnau a dychwelodd efo'i wraig a'i ddau blentyn ac wedi llawer o ysgwyd llaw a chusanu, diflannodd John Pierce a'i deulu eto a'm gadael efo'm mhaned. Roedd gwell blas ar y coffi bellach.

Agorwyd drws y caffi'n araf ac wrth i dinc y gloch atsain drwy'r stafell, gwelais Martha Evans de Williams am y tro cyntaf. Tua chwedeg oed, ei gwallt mewn rollers dan sgarff glas a gwyn. Fawr o ddannedd yn ei phen ac yn rhyw gnoi-chil fel mae rhai merched yn yr oed yma. Mae ganddi lond pen o Gymraeg sy'n goeth yn ei symlrwydd. Cymraeg ddechrau'r ganrif mewn acen Sbaenaidd drom. A'r un gair o Saesneg.

Swil oedd hi i ddechrau. "Clywed eich bod o Gymru", meddai'n nerfus gan dynnu'r sgarff ymlaen i drio cuddio'r rollers. Ymddiheuro am ei Ghymraeg gan esbonio nad oedd hi'n cael fawr o gyfle i ddefnyddio'r iaith bellach. Ond does na ddim chwithdod ar ei lleferydd. "John Pierce ddywedodd wrthai eich bod yma", meddai.

Yn araf bach ciliodd y swildod ac yn ei chwmni diymhongar y bum am weddill y bore. Aeth a mi i gyfarfod dwy arall yn y pentref sy'n siarad Cymraeg - Lily Williams de Brunt sy'n cadw unig siop ddillad Dolafon ac Eiry Lloyd Jones, fynnodd rannu ei chinio â mi. Fu'r un o'r dair yng Nghymru. Does gan Martha Evans ddim syniad o ble mae ei theulu'n hannu. Archentwraig ydi hi, sy'n digwydd siarad Cymraeg. Ond roedd yna rîn rhyfeddol i'r gyfathrach fu rhyngom. Yr iaith Gymraeg oedd y ddolen gyswllt. A'n benyweiddra oedd cyfrwng y closio naturiol. Am bedair awr hi oedd fy ffrind gorau. Roedd hi'n chwith garw gennyf ffarwelio a phentref bach Dolafon y bore hwnnw.

**Huw Roberts** BSc, ACMA
*Cyfrifydd*

Treth, Cyfrifon, VAT
Buddsoddi, Pensiynau, Morgeisi

*"Presurylfa",*
*28 West Hill Drive,*
*Llantrisant,*
*Morgannwg Ganol*
*Ffôn Llantrisant 224182.*

## Powell y C.W.M.

Yn ddiweddar penodwyd y Parch Eifion Powell yn Gymedrolwr Ymgynulliad Ewropeaidd C.W.M. Dymunwn yn dda iddo yn ei swydd newydd.

## EISTEDDFOD SALEM, CANTON

Cynhaliwyd yr Eisteddfod nos Fercher, Tachwedd 25ain, gyda Shân Emlyn (Cerdd), Islwyn Jones (Llen), Ann Dixey (Gwnio a Choginio) a Seiriol Davies (Ffotograffiaeth) yn beirniadu. Dyma'r cyfansoddiadau buddugol yng nghystadleuaeth y Stori Fer-fer; Cyfansoddi Carol a Ffurfio pum Cymhariaeth Cyfoes

Stori Fer-fer

Dihunodd y wiwer fach.
"Mae'r Gwanwyn wedi dod o'r diwedd", meddyliodd
"Ydy?" ...Brrrr... "Nag ydy"
Nôl a hi i gysgu!
(Gerallt Nash)

Cyfansoddi Carol

O Seren Wen mor ddisglair
Beth weli ar y rhos?
Bugeiliaid hoff yn gwylio
Eu praidd yn nhwllwch nos.
O, arwain di eu camre
At grud y baban cu,
Ac yno yn y stabal
Penlinio cant yn llu.

O Seren Wen mor ddisglair
Pwy ddaw o wledydd pell?
Brenhinoedd dri yn teithio
I geisio brenin gwell.
O arwain di eu camre
At faban Duw mewn crud
Rho gyfle iddynt hwythau
Gyflwyno'u rhoddion drud.

O Seren Wen mor ddisglair
Beth weli di fan draw?
Angylion lu yn canu
Eu diolch yn ddi-daw.
O arwain di eu camre
O'r beudy oer a llwm
I wylio'n ddiogel yno
Y baban bychan hwn.


O Seren Wen mor ddisglair
Beth weli yn ein byd?
Plant bach yn ceisio dilyn
Y llwybrau at y crud.
O arwain di eu camre
At Iesu'r cyfaill mawr
Fel bo i holl blant dynion
Ei 'nabod Ef yn awr.

(Eunice Andrew Jones)


Pum Cymhariaeth Cyfoes

Cyn Wynned a'r Cardi wrth dalu.
Mor salw a selsig mewn sospan.
Mor llonydd a lleian mewn Llan.
Mor gul a gwddf iar.
Mor ysgafn ag anadl angel.

(Doreen Thomas)




**Paentio a phapuro a phob agwedd o waith cynnal a chadw adeiladol, cysyllter â Ieuan Williams. (Ffôn 610957).**

## PWYLLGOR DATHLU PEDWARCANMLWYDDIANT CYFIEITHU'R BEIBL

### CANNWYLL Y CYMRO

Fel rhan o'r dathliadau i ddathlu Cyfieithu'r Beibl 1588 - 1988, datgelir y gannwyll fwyaf a welodd Cymru. Bydd y gannwyl yn teithio o gapel i gapel ac o eglwys i eglwys yn ystod y flwyddyn gan gael lle blaenllaw mewn gwasanaethau a chyfarfodydd.

Goleuwyd y gannwyll am y tro cyntaf erioed gan Mr. Llion Griffiths, Golygydd 'Y Cymro' gam mai y papur 'Y Cymro' roddodd y gannwyll i'r Pwyllgor Cenedlaethol. Cafodd ei gynorthwyo gan Mr. Owen Edwards, Cadeirydd Pwyllgor Cyhoeddusrwydd Pwyllgor Cenedlaethol y Dathlu.

**Manylion perthnasol am y Gannnwyll**

1. Maint - chwe troedfedd a 10 modfedd o uchder.
2. Diamedr - 12 troedfedd
3. Pwysau - 100 cilo
4. Cymerodd 10 diwrnod i'w gwneud gan Ross-on-Wye Candlemakers yn Nyffryn Gwy
5. Côst y gannwyll yw £600
6. Mae'r gannwyll yn cyfateb i 11,428 o ganhwyllau bwrdd cinio 10 modfedd
7. Fe all losgi am 11,428 awr (dros 400 niwrnod).

Gwybodaeth pellach gan Cyril Hughes, Trefnydd Cenedlaethol, Sycharth, 54 Maes Hendre, Waunfawr, Aberystwyth (0970-617320) neu David Meredith, HTV Cymru, Caerdydd (0222-590590).

## CANOLFAN IAITH GENEDLAETHOL NANT GWRTHEYRN

### CYRSIAU A CHALENDRAU NANT GWRTHEYRN

**1. Calendr Cymraeg 1988**
Nifer cyfyngedig ac yn unigryw i Nant Gwrtheyrn. Chwe llun du a gwyn o'r Nant - pum ohonynt yn dangos bywyd yn ystod oes y chwareli a'r chweched yn dangos llun o'r Nant heddiw. Pris: £2.00 (£2.20 trwy'r post).

**2. Cyrsiau Preswyl**
Mae rhaglen gynhwysfawr o gyrsiau pum niwrnod y Nant bellach ar gael. Yn ogystal â chyrsiau amrywiol ar gyfer dysgwyr o bob lefel ar oedran, mae'r rhaglen hefyd yn cynnwys cyrsiau amrywiol ar gyfer Cymry Cymraeg (mamiaith). Beth am ystyried Cwrs Preswyl yn y Nant ar gyfer peth o'ch amser hamdden yn ystod 1988? Cynigir telerau ffafriol iawn i grwpiau, teuluoedd a disgyblion ysgol, e.e. pris arferol cwrs pum niwrnod (nos Sul i fore Gwener), lluniaeth llawn = £90.00 yr oedolyn - yn cynnwys llety, bwyd, gwersi, ymweliadau, sgyrsiau, adloniant a llawer, llawer mwy!
Rhagor o fanylion ar gael o :
Swyddfa'r Nant,
Llithfaen,
Pwllheli,
Gwynedd.
LL53 6PA

## Plis Ga i Sws?

Actor (ar ddiwedd sesiwn holi-ac-ateb mewn ysgol): Oes 'na gwestiwn arall?

Merch* Plis ga'i sws?

John Ogwen oedd yr actor ac adroddodd y stori, ymhlith dwsinau eraill, yn Noson y Boneddigesau, Clwb Cinio Caerdydd yng Ngwesty'r Parc ar Dachwedd 20fed. Roedd ei glywed yn sôn am ddyddiau ei blentyndod ym Methesda yn ddileit i bawb a'i hiwmor yn ddigon i ddyfrio mascara ambell i foneddiges. Tarodd un nodyn difrifol; cyfeiriodd at y doreth o lyfrau sy'n trafod a chyfleu hiwmor yn Saesneg - a'u prinder yn y Gymraeg. Awgrymodd y dylid troi ati ar frys i osod ffraethineb a doniolwch y Cymry ar gôf a chadw gan gynnwys yr enghreifftiau di-ri o hiwmor bywyd capel sy ar gael ar lafar gwlad.

Diolchwyd iddo gan y Parch Cynwil Williams, Llywydd y Clwb Cinio, ac Eirion Lewis, a'r ddau yn cynnal ei thema a rhoi min ar ei ddadl gyda'u straeon eu hunain.

Yn ystod y noson cyflwynwyd tocyn llyfrau i Gwyn Lewis Davies i ddiolch iddo am ei wasanaeth hir fel Ysgrifennydd y Clwb ac i ddymuno'n dda iddo ar ei daith i bendraw byd yn y flwyddyn newydd.

Noson hwyliog dros ben a phawb ar y diwedd yn ffeirio straeon digon i lenwi cyfrolau. A phob boneddiges yn yr ystafell wedi dyheu am glywed John Ogwen yn gorffen ei anerchiad gyda'r geiriau "Oes 'na gwestiwn arall?!"

## Ap Lewsyn

Dymuniadau da i un arall sy'n pefrio o fywyd ac yn cyfrannu'n helaeth i fywyd Cymraeg Caerdydd - Gwyn Lewis Davies - sydd ar fin teithio i bendraw'r byd, i un o Ynysoedd y Môr Tawel - Tarawa - i fwynhau cwmni ei fab. Gobeithiwn gael pwt i'r Dinesydd ganddo o dro i dro.

## CLWB CYMRIC

**CANLYNIADAU HYD AT RHAGFYR 5 ed**

**Tim 1af**

| | |
|---|---|
| Bridgend St | 3-6 |
| Earlswood | 1-2 |
| Earlswood | 1-3 |
| S.G.I.H.E. | 4-3 |
| Pengam | 5-0 |
| Grange Quins | 0-2 |

**2il Dim**

| | |
|---|---|
| City Social | 8-1 |
| Tongwynlais | 3-9 |
| Farmers and Dairymen | 3-6 |
| Unigate | 3-2 |
| AFC Rumney | 2-5 |

# Colofn i Feddwl

COLOFN I FEDDWL - MEURWYN WILLIAMS

Dwi'n meddwl mai Bwrdd Twristiaeth Ynys Jersey oedd wedi gosod yr hysbyseb! Cyfle i ffoi oddi wrth gymhlethdodau a gofalon y Nadolig oedd yr annogaeth, ffoi i ynys Bergerac a cheisio llonydd. Allwn i ddim deall. Pwy eisie ffoi rhag y Nadolig sydd? Onid dyma gyfnod mwyaf cynhesol y flwyddyn. Dyma adeg y cyfarchion, a'r estyn dwylo ar draws y misoedd, gan gloi'r cyfan mewn cerdyn a gair neu ddau. Dyma pryd bydd plant yn cwhilio tywelion a chyrtens i'w defnyddio yn Y Ddrama. Pan fydd papur arian y Kitchen Foil yn troi bocs gwag yn Fyrr a thipyn o dinsel yn goron wych i angel syrthiedig! Allwn i ddimdeall pa foi PR eisteddodd lawr ac a ddychmygodd fod neb eisie ffoi rhag gofal a'r creisis. Gobeithio wnes i y bydd ei Jersey yn dlawd iawn o ran ymwelwyr y Nadolig hwn - hyd yn oed os nad oes raid talu VAT yno!

-----

Ond ffoi rhag Nadolig Crist wnaeth ei rieni erbyn meddwl. Ffoi rhag Herod a'i filwyr. Am fod ar Herod ofn y baban a anwyd. Ofn y potensial tybed? Ofn realiti cariad? Ofn y Gair? 'Cwsg cyn daw Herod a'i gledd ar ei glun' canai ei fam. Y cleddyf sy'n cymeryd bywyd oddi ar yr Un ddaeth i roi bywyd cyflawn. Bywydd sydd yn golygu pethe fel caru, a chymodi a maddau, a thrugarhau a dangos gofal.

-----

A fyddwn ni'n ffoi rhag ei Nadolig Ef?
A fyddwn ni'n gadael i'r bwndel yn y cadachau dyfu'n Ddyn?
Os gadawn ni iddo, ffoi fyddwn ni eisie dwi'n siwr - ffoi rhag ei her, rhag ei hawlio arnom, rhag ei alwad arnom.
Ond erbyn heddiw does yr un ynys yn ynysig mewn gwirionedd nag oes?
Mae modd mynd a dod o Jersey!
Diolch Iddo.


Gwersi piano, theorie a phîb

Mrs. Almut Davies - L.R.A.M
61, Oakfield Street
Y Rhath

Ffôn: 488399

Cysylltwch o fis Awst ymlaen





Arlwyo Awril

Partïon, ac Achlysuron Arbennig.

Darperir at unrhyw rif.
Rhywbeth at ddant pawb.
Bwyd ffres.
Prisiau rhesymol.

Ffôn 481001 (Caerdydd) am fwydlen.


MENNA'N MANYLU

Dyne ni - mis Tachwedd y tu cefn i ni unwaith eto ac mae 'na hen baratoi ar gyfer y 'Dolig ymhob man. Ond edrych yn ôl dwi am wneud rwan o gofio'r prysurdeb yn y tŷ 'cw dros yr wythnosau dwytha.

Dydi Ceri (fy chwaer a'm land lady) na finne wedi bod yn y tŷ am noson gyfan ers hydoedd a dwi'n synnu braidd sut fod Cai'r caneri'n edrych cystal a ninne'n ei esgeuluso cymaint!

Be 'di'r prysurdeb medde chi? Wel, yr holl ymarferion''ma wrth gwrs. Does na ddim ond Gŵyl Gerdd Dant a Gŵyl Ddrama'r Fuwch Goch ar ein platiau ni ers misoedd - heblaw prysurdeb y penwythnos rygbi, plant mewn angen, Steddfod Ffermwyr Ifanc Cymru a'r Smithfield wrth gwrs

Dysgu'r leins a'r nodau, yr alaw a'r lliwio, y symudiade a'r asio, y cyd-symud a'r cyd-actio; ac mae'r tŷ 'cw wedi bod yn wag ers dechrau Tachwedd efo'r dodrefn a'r celfi a hyd yn oed y pupur a'r halen yn 'brops' hen ffasiwn i'r ddrama. Does ryfedd fod Dafydd Emyr a'i debyg yn fy ngalw'n 'hen gant'!

Yn yr Ŵyl Gerdd Dant, Merched y Garth gipiodd y wobr gyntaf, gan ein maeddu ni, Côr y Ddinas, yn racs. Ond, chwarae teg, mi gawsom bedwerydd allan o saith, er fod nifer yn meddwl ein bod wedi cael cam. Ta waeth - hen fusnes afiach ydi'r 'cythrel canu' ma neu unrhyw gythrel arall petae'n mynd i hynny.

Does 'na ddim cythrel yn y cwmni drama, gobeithio, ond fod rhai'n fwy cîn na'i gilydd. Cafwyd dwy noson hynod lwyddiannus yng Nghlwb Ifor Bach - pawb yn corcio chwerthin am ben y cymeriadau gan fod pawb yn nabod ei gilydd mor dda - peth iach

iawn oedd hynny gan nad oedd cymaint o bwyse a straen arnom a neb yn rhy 'o ddifri'.

Y ddrama gyntaf oedd 'Y Gadair Olwyn' gan Wil Sam dan gynhyrchiad medrus ac amyneddgar Siw Huws. Cymeriad reit fusneslyd a budur oeddwn i - digon tebyg i fi'n hun medde rhai mae'n siwr. Cefndir y ddrama oedd fod y nain bron a marw gyda'r fam yn tendio'n ddi-ddiwedd arni; ac roedd y ferch a'r cariad yn methu priodi hyd nes iddi 'fynd i gadw'. A doedd y doctor o fawr help chwaith - roedd yn dweud lot heb ddweud dim. Yn y diwedd, mae'r nain yn marw ond mae'r fam yn mynd i'r un cyflwr, ac felly'r ferch yn mynd i sgidiau ei mam! A does 'na ddim priodas wrth gwrs i'r cariad chwaith.

Yr ail ddrama oedd 'Y Practis' gan William Leyshon dan arweiniad 'proffesiynol' erbyn hyn, Ynyr Williams. Criw o hwntws oedd yma'n ymarfer drama mewn festri a chafwyd perfformiad ffars a doniol iawn gan bawb, yn enwedig John y Gwas. Roedd y botel Niwci Brown wedi gwneud ei gwaith i'r dim!

Y ddrama olaf oedd 'John Hughes drws nesa' gan Cynan, gyda Bethan Gwanas wrth y llyw. Roedd pawb yn rowlio chwerthin wrth weld perfformiad gwych Gareth Traws o hen lanc swil yn trio denu calon un o'r ddwy chwaer. Ac roedd y ddwy Sian hwythe wedi mynd i ysbryd y darn gan ei gynnal trwy'r perfformiad er gwaetha'r diffyg technegol. Roedd clywed Gareth druan yn gorfod gweiddi "bong' a 'tic toc' yn donic.

Ar ôl dwy noson yng Nghaerdydd i ffwrdd a'r ddwy ddrama gynta i gystadlu yng Ngwyl Ddrama Tafod Elai gyda Huw Ceredig - actor reit brofiadol(?) - yn beirniadu. Bu'r Ŵyl yn llwyddiant ysgubol gyda Merched y Garth yn sicrhau paned a chacen i bawb. Yn yr Adran Ysgolion Uwchradd, Ysgol Rhydfelen aeth a hi, gyda Glantaf a Chwm Rhymni'n glos iawn.

Yn yr Adran Agored, perfformiwyd pum drama fer - gyda rhai yn hirach na'i gilydd. Yn ogystal â'n dwy ni, perfformiwyd 'Y dyn codi pwysau' (Wil Sam) gan Gwmni'r Dwrlyn; 'Y Dolig Hwnnw' (Gwenlyn Parry) gan Gwmni Unnos, ddaeth yn ail, a 'Cybudd Taf Elisium' gan Gwmni'r Bont - perfformiad 'agos at yr asgwrn' a doniol iawn wedi ei gyfieithu a'i addasu o'r Saesneg gan Menna Lewis a'i chynhyrchu gan Gareth Miles. Y nhw (oherwydd tast dichwaeth y beirniad) ddaeth i'r brig. Ond fel y dywedes i, does 'na ddim cythrel yn y byd actio'n nagoes. Roeddynt yn haeddus pob tamedus o'r darianus!! Erbyn i'r pwt yma fynd i'r Wasg, mi fyddai wedi bod yn Aberystwyth yn gweithio i blant mewn angen, ac yn Sioe Amaethyddol Smithfield yn Llundain - 'adre o adre' ys dywed y Sais, ynghanol hogie'r werin a hogie caib a rhaw!

Alle y llacith pethe ar ôl y Dolig - tan hynny, Gŵyl hwyliog!

Menna Medi


**Hunangyflogedig?**
**Heb Bensiwn?**

Ffôn: Caerdydd (0222) 562816

**LYNN JONES**

30, Highfields,
Llandâf,
Caerdydd, CF5 2QB

**BUDDSODDIADAU**
**YSWIRIANT BYWYD**
**PENSIYNAU**

# Gwario £25

Gofynnodd Y Dinesydd i'r canlynol wario £25 dychmygol!

Mae'n rhy hawdd o lawer gwario pum punt ar hugain erbyn hyn, a hynny heb adael rhyw lawer o olion ychwaith. Fase dim gobaith dianc i wlad boeth heulog am y pris, a phrin y gallwn brofi penwythnos yn Llundain kyd yn oed. Ac yna'r Dolig wrth gwrs. Ai'r arian ddim ymhell ar anrhegion y teulu cyfan, ac eto'n ormod i unrhyw aelod unigol, heb chwalu'r gyllideb.

A mi fy hun. Be brynwn i â'r arian? Mae yna lawer o bethe wrth gwrs ond anghyffrous iawn fyddai imi eu rhestru. Anodd hefyd fyddai dethol o blith y rheini pa un ga'i hawlio blaenoriaeth. A wedyn, onid yw'n brafiach rhannu rhyw wobr annisgwyl, a pheidio caniatau iddo suddo i bwll dyled fy nghyllid bob dydd?

Na, does ond un peth wnai'r tro. Pryd o fwyd blasus i ddau, a digon o win i'w ddifoli. Dianc am ychydig oriau i awyrgylch hudol Tŷ Bwyta cartrefol, lle nad ymyrra'r gwynt na'r glaw, na'r ceir, na phrysurdeb siopa'r Dolig. Gwn am ddau neu dri lle yng nghrombil y ddinas sy eto mor ynysig eu hawyrgylch. Adfer yno nosweithiau diog a difyr yr haf, hyd yn oed os byrhoedlog. Ie, stecen yr un, saladau diddorol, gwin sionc a newid gobeithio i dalu'r tacsi adre, fel na surai gwlybaniaeth oer Rhagfyr mo'r noson. Dyna wnawn i.

Guto Harri

---


NEUADD Y SGOWTIAID, RHIWBEINA

NOS SADWRN, IONAWR 16eg

am 8 o'r gloch

PARTI NADOLIG Y DINESYDD

NOSON O GAWL A CHÂN A HWYL.

PRIS MYNEDIAD : £2.50


Taswn i'n cael £25 dwi'n gwbod yn union sut faswn i'n ei wario.

Mae 'na sgidie dwi wedi'i llygadu ers tro yn Miss Selfridge, rhai Dr. Martins, yn costio yr union arian yna, ond pan es i a Mam i'w gweld roedd hi'n deud eu bod yn "rhy glogyrnedd ac fel sgidie dringo dyn". Mae'n anodd plesio rhieni y dyddie yma, achos tan yn ddiweddar roedd Mam yn pregethu am rinwedde sgidie call cry yn lle y 'pethe tila pige main' oeddwn i'n eu hoffi.

Ond fase hynna ddim yn ddigon o lith i ddarllenwyr Y Dinesydd felly sut arall y baswn yn gwario'r arian.

Baswn yn gallu prynu chydig o 'fake-up' - sori - colur (i'w wisgo y tu allan i oriau'r ysgol wrth gwrs).

Mae gen i dri pysgodyn aur - wel dau aur ac un du - Karenski, Lenin a Hitler - a mae nhw'n byw mewn powlen braidd yn gyfyng (gobeithio nad oes neb o'r Gymdeithas Rhag Creulondeb i Anifeiliaid yn darllen Y Dinesydd) - falle baswn i'n prynu desgil fwy iddyn nhw.

Roeddwn i wedi gobeithio cael papuro fy ystafell wely yn ystod yr hanner tymor ond mi fethodd Dad a fi a chytuno ar y dewis o bapur, felly dechreuais orchuddio'r waliau gyda chloriau a hysbysebion cylchgronau merched lliwgar (h.y. cylchgronau lliwgar nid merched) ac yn wir mae'n ddeniadol iawn. Mae wal arall bron o'r golwg dan bosteri amrywiol - Opera Roc Merthyr, Charli Chaplin, Mudiad Gwrth-Apartheid Cymru ac mae James Dian wedi cymryd lle Caryl a Geraint (sori) - falle brynwch i boster i un man gwag yn y cornel.

Bydd yn rhaid i mi sleifio'n ofalus i'r adran deganau yn Marks rhag ofn i fy ffrindiau (neu athrawon) fy ngweld. Dwi bron a marw isio prynu "Zippi" ffylyffi - welsoch chi o ar Rainbow? - (ar y sianel arall - sori eto).

Ar ôl hynna i gyd dwi'm yn meddw meddwl fod 'na lawer o newid o £25.

Ond wyddoch chi be dwi yn lecio y sgidie 'na, ac falle bydd Mam yn falch tase hi'n dod yn aea' caled - a dwi'n siwr y bydd hi; mae 'na lot o aeron ar y coed. Nadolig Llawen.

Beca Llwyd

---

Wrth i rywun gael cynnig pum punt ar hugain i wneud fel y mynno gydag e', a hynny'n gyhoeddus fel hyn, y demtansiwn yw datgan taw at ryw elusen neu'i gilydd y byddai'r cyfan yn mynd. Hynny'n enwedig petai hi'n elusen boblogaidd fel 'Gwallt Mewn Angen' d/o Dewi Morris, neu gyfraniad tuag at yr estyniad newydd ar waled Emyr Wyn........ond na, gwell gwrthsefyll y demtasiwn honno.

Mae pum punt ar hugain yn bris digon agos at gost rhyw declyn bach handi fel Cloc Larwm da, neu hanner 'Filofax'. Mae'n debyg y byddai angen 'Filofax' cyflawn arna'i i f'atgoffa pryd i osod y cloc larwm; felly dyna'r bwt i'r syniad yna.

Fe fyddai'n trio meddwl am rywbeth tymhorol yn gymorth wrth benderfynu beth sy'i wneud a'r arian, mae'n siwr - a hithau'n Nadolig arnom ni unwaith eto. Petawn i'n un am wirodydd - neu unrhyw enghraifft arall o gynnyrch yr hen Satan yn arbennig ar gyfer yr Wyl - fe fyddai'r gwario yn ddigon didrafferth; ond wedyn y Nadolig yn ddigon di-drefn.

Na. Adeg dychwelyd adre am sbel fach yw'r Nadolig i mi, bellach - "megis colomen alltud gyda'r hwyr". Y pwrcasiad calla', felly, fyddai llond tanc o betrol, a phecyn o offer glanhau'r car, rhag i mam weld mod i'n gyrru twlc ar olwynion.

Huw Chiswell

---

Person sythlyd fues i erioed - rhywbeth sy'n achosi probleme di-ri yr adeg yma o'r flwyddyn - probleme bilie nwy a thrydan er mwyn cadw'r tŷ yn dwym fel tŷ gwydr, a phrobleme dillad - beth i wisgo er mwyn cadw'n gynnes heb edrych fel sach o datws. 'Sa chi'n meddwl felly ma' gwylie mewn gwlad boeth 'sa'n siwtio rhywun fel fi. Torheulo ar draethau euraidd o dan wybren di-gwmwl, a'r haul yn tywynnu'n braf, gan gadw'r tymheredd yn uchel. Ie, dyna sa chi'n meddwl sa'n apelio at berson sy'n cwyno'i bod hi'n oer trwy'r amser. Ond na, bob Mis Ionawr, sgio yw'r dileit mawr. Nid dianc i'r haul ond dianc i'r rhew a'r eira - i ganol y mynyddoedd lle ma'r tymheredd tipyn oerach na thymheredd Cymru - a dwi'n sythu yma!

Beth sydd â wnelo hyn a'r £25 te? Wel, pa ffordd well i wario'r arian na thrwy brynu pethe fydd yn siwr o nghadw i'n gynnes ar y pisteo - 'thermals' - trôns hir at fy mhigyrnau a vest sy'n mestyn o ngên i ngarddynnau - i'r dim i gadw gwyntoedd yr Alpau mâs (a'r eira hefyd, gan mod i'n treulio cryn dipyn o'r gwylie ar fy mhen ôl!) Falle bo rhai ohonoch wedi creu darlun feddyliol o drôns hir dadcu fydde'n mynd yn llac ar y pen ôl, ac yn cosi. Wel, meddyliwch eto. Ma' thermals y dyddie ma' yn lliwgar ac yn llawn 'lastig er mwyn osgoi'r 'sag' yn y cefn a'r pengliniau - ac ma' nhw werth y byd pan fo'r tywydd yn oer.

Ffwrdd a fi yn syth i un o siope mawr y ddinas i brynu casgliad newydd o thermals ar gyfer gwyliau eleni.

Pa liw i ddewis ydi'r broblem nesa. Wel, gwyrdd ydi'r siwt sgio, felly run man cael y thermals i fatsio. Ond fyddai angen par sbâr - melyn llachar dwi'n credu - os cai ddamwain o leia mi fyddai'n lliwgar yn mynd at y doctor! O ie, rhaid cael sane thermal ar fy nhraed hefyd - 'smo ni'n moen i rhain fod yn oer!

Y gost

| | | |
|---|---|---|
| 2 vest £4.99 yr un | - | £9.98 |
| 2 drôns £5.99 yr un | - | £11.98 |
| Sane £2.50 | - | £2.50 |
| Cyfanswm | | £24.46 |

Ma' hynny'n gadael digon o arian i gael hufen ia - gwaith twym ydi'r siopa ma'. Piti garw 'sgen i ddim ugain punt arall i brynu bicini!

Sian Thomas

# Taflen yn Agor




Y canwr a'r dysgwr Frank Hennesey yn derbyn pas gan y cawr, y chwaraewr rygbi rhadlon, Ray Gravell - ffordd unigryw o agor Siop Taflen, 12 Duke Street Arcade, ddydd Sadwrn, yr 28ain o Dachwedd.

Llun: Martin W. Roberts

Dymuna HTV Cymru lwyddiant i'r achos. HTV Cymru

Dymuna HTV Cymru lwyddiant i'r achos. HTV Cymru

Dymuna HTV Cymru lwyddiant i'r achos. HTV Cymru

Dymuna HTV Cymru lwyddiant i'r achos. HTV Cymru

Dymuna HTV Cymru lwyddiant i'r achos. HTV Cymru

Dymuna HTV Cymru lwyddiant i'r achos. HTV Cymru

**Cymdeithas Canna**

**Dosbarthiadau Dysgu Cymraeg i Oedolion Canolfan yr Urdd, Caerdydd**

**Ein nod yw parhau i feithrin cwsmeriaid newydd ar gyfer SIOP TAFLEN!**

**Pob hwyl gyda'r fenter newydd**



**Dymuna**

**GWASG Y DREF WEN**

**bob llwyddiant i**

**TAFLEN**

**yn ei siop newydd**





**Pob Lwc i Taflen**

**Dydd Sadwrn yn y ddinas — yn ymweld â'r Siop Llyfrau Cymraeg neu'n siopa'n gyffredinol: dewch i Heol Womanby, cyferbyn â'r castell, i Glwb Ifor Bach am ddysglaid o de, diodydd eraill neu rywbeth i fwyta. Croeso cynnes i bawb!**





YN EISIAU : PERSON CYFRIFOL DIBYNADWY I WEITHIO YN RHAN AMSER YN SIOP TAFLEN (HYD AT 15 AWR YR WYTHNOS).
AM FANYLION PELLACH CYSYLLTER A TAFLEN : FFON 27530



YN EISIAU : RHYWUN I WARCHOD BACHGEN DWYFLWYDD YN YSTOD ORIAU GWAITH O DDYDD LLUN I DDYDD GWENER. AM FANYLION PELLACH, FFONIER CAERDYDD 371914.


AGORIAD TAFLEN
12 DUKE STREET ARCADE, CAERDYDD

Y mae 'Taflen' wedi newid aelwyd, a hynny er gwell. Erbyn hyn y mae'r siop yng nghanol y ddinas mewn man deniadol a chanolog. Er wrth gerdded o gyfeiriad y castell, hawdd yw mynd heibio iddi heb sylwi. Gwell felly fyddai mynd i'w gweld o gyfeiriad Sgwar Sant Ioan.

Dydd Sadwrn, Tachwedd yr 28ain, agorwyd y siop yn swyddogol a hynny mewn dull unigryw. Ni thorrwyd potel o siampaen gan ddymuno iddi hi a phawb sy'n gysylltiedig a hi hwylio'n hwylus. Ni thorrwyd rhuban Swyddfa Gymreigedd. Na, Ray Gravell y cawr rygbi a'r darlledwr hoffus yn taflu pel rygbi i ddwylo'r canwr a'r dysgwr Frank Hennesey. Diolch byth, fe'i daliodd yn ddiogel, o sylwi bod crefftwaith costus yn cael ei arddangos ar y silffoedd. Mwynhawyd gwydriad o win a chymdeithasu. Cafwyd cyfle i weld yr adeilad i gyd, y mae yna fwriad i agor caffi ar y llawr isaf.

Y mae gwahaniaethau mawr rhwng yr hen Daflen a'r un newydd. Y mae'n fwy canolog, y mae oriau agor y siop yn fwy pendant. Sydd ar agor o ddeg y bore hyd hanner awr wedi pump. Y bwriad yw morol y bydd llyfrau newydd eu cyhoeddi ar gael yno yn ddioed, heb anghofio'r clasuron poblogaidd. Gogoniant y siop yw ei ffenestri eang sydd yn ddelfrydol i arddangos enghreifftiau o grefftwaith chwaethus. Syndod faint o'r rheiny sydd eisoes wedi eu gwerthu. Dyma agwedd o Gymreictod sydd wedi bod yn brin yn y brifddinas. Y mae hwn yn fenter ac yn ddatblygiad newydd. Y bwriad yw hybu diddordeb a sylw i gelfyddyd gain, a chynnig nwyddau o'r safon uchaf i drigolion Caerdydd. Hyd yn hyn, bu prinder cyfle i brynu nwyddau o'r fath, a hynny gan artistiaid sy'n adnabyddus yng Nghymru ac yn arddangos eu gwaith trwy Brydain.

Dymunwn yn dda i'r fenter, gan obeithio y gwireddir breuddwyd y sawl sydd wedi ymuno a'r fenter. Hyderwn y bydd darllenwyr Y Dinesydd gyda'r mwyaf cefnogol i lwyddiant Taflen.

## LLONGYFARCH

Llongyfarchiadau i Lona ac Eirian Llewelyn ar enedigaeth mab - eu cyntaf anedig, Medyr - Pawb wedi gwirioni rwy'n siwr Medyr.

Llongyfarchiadau i Anna Lindsay ar basio'n feddyg. Dymunwn yn dda iddi ar drothwy ei gyrfa.

Llongyfarchiadau calonnog i Martin ac Adey Cook ar enedigaeth Sara Nia ar Dachwedd 19eg. Mae'i henw ar restr aros Ysgol Iolo Morganwg yn barod!

## Colofn Shân Emlyn



Mae'r amser wedi dwad imi sgwennu mwy o rwj i lenwi fy ngholofn yn 'Y Dinesydd'. Be' sydd gen i i'w ddweud yn y rhifyn dwbwl hwn? Wn i ddim. Y cyfan allai i wneud ydy rhannu rhai meddyliau efo chi. Oddiar y rhifyn diwetha bu cyfarfod o bwyllgor Y Dinesydd, a chystal ichi wybod fy mod wedi newid fy swydd, o fod yn Gadeirydd i fod yn Olygydd y papur. Felly, er gwell neu er gwaeth, o hyn ymlaen yn olygyddol mae'r gofal i gyd arna i. Y mae angen cefn ar y papur o sawl safbwynt. Yn gyntaf, yn ariannol. Dosberthir tair mil o gopiau o'r papur yn fisol, ac nid bach o job ydy hynny, diolch i Mallt Anderson am fod yn gyfrifol am weinyddu'r dasg. Yn ffodus y mae gennym drysorydd triw ac ymroddgar. Brawychus oedd gwrando ar adroddiad Richard Hall Williams a deall mai 42 yn unig o unigolion o Gymry Caerdydd sy'n cyfrannu i goffrau'r papur. Dim ond dau gapel - Heol y Crwys a Salem, Canton. Cawn gyfraniadau gan Ferched y Wawr, Y Cylchoedd Cinio, Y Cymrodorion, a Chymdeithasau'r Eglwysnewydd a Phenarth a Dinas Powys. Yr haelionaf o bell ffordd o'n cefnogwyr yw'r Dysgwyr. Diffyg meddwl neu ddifrawder? Chi ŵyr.

Hwn yw papur bro cyntaf Cymru, ac ar adegau teimlaf fy mod wedi mynd yn hesb ac wedi cael digon, ond mae'r teimlad bod yn rhaid i'r hen bapur 'ma fyw yn gryfach, a dyna pam y daliaf ati.

Faint o ymlyniad sydd ganddo chi'r darllenwyr? A fuasech yn ei golli pe na bai'n ymddangos? Pwy a faint ohonoch chi sy'n ei ddarllen? Ydy'r cynnwys yn plesio? Wyddoch chi faint o gybôl ydy dod a fo o'r Wasg yn fisol? Beth bynnag yw'r atebion i'r cwestiynau hyn - eich ymateb ar ddu a gwyn yn unig all dystio - boed hynny'n siec, yn llythyr neu'n erthygl. Mae lle i bob llais, ac i bob achos yng ngholofnau'r Dinesydd.

Llawenydd i mi yw bod Robin Jones wedi cytuno i fod yn Gadeirydd 'Y Dinesydd' yn ogystal â Eirion Lewis fydd o hyn allan yn Ysgrifennydd y Pwyllgor. Yn y flwyddyn newydd bwriadwn gynnal Cyfarfod Cyhoeddus i chi'r darllenwyr gael lleisio'ch barn. Ddowch chi yno tybed? Dros y blynyddoedd, prin bod neb ag eithrio'r pwyllgor wedi bod yn bresennol!

Cyn hynny, cynhelir Parti'r Dinesydd - ymdrech flynyddol y criw bach i chwyddo'r coffrau. Bydd eleni yn dipyn o arbrawf - cynhelir y Parti yng Nghlwb Ifor Bach am 8 o'r gloch, Ionawr 16eg. Da chi, dowch i'n cefnogi. Mynnwch docyn oddi wrth yr Ysgrifennydd - Eirion Lewis - Rhif ffôn: 751831. Nadolig Llawen iawn i chi i gyd.

# Ac yr Oedd yn y Wlad Honno . . .

Gofynnodd Y Dinesydd i dri a fu ar ymweliad yn ddiweddar a Israel am eu hargraffiadau ar gyfer rhifyn y Nadolig.



Fe fum i yn ffodus iawn ers rhai blynyddoedd, yn cael mynd i Fethlehem unwaith y flwyddyn, a chriw yn fy nghanlyn. Eleni, bum yno eto a rhyw driugain a deg o bob rhan o Gymru yn y fintai.

Byddaf yn trefnu pob tro i fod yn Ninas Dafydd ar ddechrau'r daith, a mynd ymlaen i Jerusalem yn y prynhawn. Dyma oedd y drefn. "Wrth feddwl am dy gariad gynt, O Fethlehem i'r groes..." Ond, y dref fechan; nid y ddinas fawr, a ddewisodd Duw i ddangos Ei wyneb. Yn uchel, uwchben anialwch Jwdea y daeth yn faban, y baban a dyfodd yn ddyn arbennig iawn, unigryw i'r Cristion. Trwy ei lygaid Ef, fel trwy ein llygaid ni, gwelodd Duw ei greadigaeth. Trwy ei glustiau ef, fel trwy ein clustiau ni y clywodd Duw ochenaid y ddynoliaeth. Trwy ei ddwylo ef, a'n dwylo ni y bendithiodd y Creadwr blant gweiniaid a thrueiniaid y byd. Trwy ei gleisiau ef y gwaredodd Duw blant dynion o'u doluriau a'r byd o'i hunllef.

Tri pheth a wnawn pob blwyddyn uwch y fan lle'i ganwyd. Yn gyntaf, prynu cannwyll, a'i goleuo. Gwan yw golau'r gannwyll, ond mae'n dwyn ar gof i bawb ohonom ein bod yn chwilio am ffordd well o fyw, a'n bod yn ddiolchgar bod Duw wedi trefnu ffordd. Mae'r tywyllwch yn bygwth pawb ohonom, ond nid yw wedi trechu golau Duw erioed. Diolch byth am hynny, a chanmil diolch. Wrth oleuo'r gannwyll, fe gofiwn y seren a arweiniodd y sêr-ddewiniaid at y preseb. Gwan oedd y golau hwnnw, ond o'i ddilyn, fe ffeindiodd y tri ffordd ragorach i ddychwelyd arni. A dysgu, mae'n sicr, fel ni yma yng Nghaerdydd, nad yw'r brifddinas, fel y credent hwy, a ninnau weithiau, yn cynnig y cwbl i ni. Mae yna wirioneddau a gawn mewn mannau llai lliwgar. Adeg y Nadolig, fe gofiwn i ni eu derbyn yn symlrwydd calon a chynefin.

Yr ail beth a wnawn fydd mynd i lawr i'r ogof, lle trigai'r anifeiliaid syn. Mae'r grisiau i lawr yn llithrig a throellog. Wrth ddisgyn, byddaf yn cofio geiriau Jung, bod yn rhaid i ni wrth fyw, ddisgyn yn fynych i waelodion yr is-ymwybod, neu fe ddaw'r bwystfilod sydd yno, a'r cysgodion du, i fyny, gan orlifo'r ymwybod, a chreu hafoc yn ein bywydau brau. Camp byw, medd Pantycelyn, yw cael yr enaid i chwilio'r ystafelloedd sydd isod! Ac iachawdwriaeth dyn yw gweld yno, yn nyfnderoedd bod, y dyn bychan, y Bod newydd Ei Hun. Ei eni yno yw'n geni ni drachefn.

Cyn gadael Eglwys y Geni, mae un peth arall i'w wneud, sef edrych allan dros faes y bugeiliaid, ac amgyffred y gogoniant a welodd y lleygwyr hyn yn eu byd a'u dyddiau llwydaidd. Uwch eu pennau, fe ganodd angylion nef, a gwelodd y fintai, na chai esgyn i'r Deml (am eu bod yn eu gwaith yn aflan), ogoniant Duw Ei Hun. Gogoniant yw'r hyn sydd uwchlaw dychymyg dyn, a Dirgelwch (a dyna fydd y stori am byth) yw'r hyn sydd tu hwnt i eiriau dyn. Y Gogoniant a'r Dirgelwch hwn sy'n llanw'n bywydau mewnol i'r ymylon. Cael y rhain ynom yw cael y dwyfol ynom - pennaf nôd yw Wyl fawr.

Mor dda ym Methlehem yw cael mintai o Gymry o'm cwmpas, i rannu profiad, canu Carol a darllen Prolog Ioan. Yn y wlad honno, yng ngolau'r gannwyll, gall un gymeryd taith i fewn iddo'i hun, a chael yno, os yw'n addolwr gostyngedig y dwyfol un. A darganfod uwchben, y canopi hwnnw o ogoniant, sy'n chwalu balchder y sawl a drodd at feddwl yr oes gan anwybyddu y meddwl hwnnw oedd yng Nghrist Iesu.

Cynwil Williams

---

Digwydd troi ag edrych drwy ffenest gefn y bws wrth adael y ty bwyta ar yr M4 a gweld yr haul yn belen fawr goch yn disgyn yn esmwyth ar y gorwel. Naw awr yn hwyrach, yn eistedd ar Fynydd yr Olewydd, gweld yr un haul yn codi'n belen goch dros Jeriwsalem ac yn ei throi yn Ddinas Sur.

Hynod o brofiad oedd mynd gyda phererinion o Gymry Cymraeg i Wlad Iesu. Hynod o brofiad hefyd oedd cael Bonnie, Iddewes a anwyd yn yr Amerig, i'n tywys, i'n dysgu, i'n hatgoffa, i rannu gyda ni ei brwdfrydedd rhyfeddol. Mae Bonnie'n caru ei gwlad a'r cariad hwnnw sy'n treiddio trwy ei dull o drosglwyddo. Roedd ei holl gwybodaeth yn llifo a ninnau i gyd yn barod i wrando.

Tybed beth a erys yn y côf -

Y teimlad o fod yn Gethsemane a syllu ar yr hen hen goed olewydd.
Y dwysder wrth eistedd yn llonydd ddistaw yn Eglwys yr Holl Genhedloedd a'i ffenestri porffor;
Crywdro drwy'r hen Ddinas a'i strydoedd cul a'r siopau bach heb eu newid dros y canrifoedd;
Aros am ennyd ar feysydd y Bugeiliaid yn gwrando ar ddarlleniad a chanu emyn;
Bod yn rhan o brysurdeb Nazareth Arabaidd a'i strydoedd yn anabl i gymryd traffig yr ugeinfed ganrif, ac yn synhwyro annrhefn.
Teithio drwy feysydd Judea o Jericho i fyny at Jerusalem wrth iddi nosi a rhywun yn taro nodyn rhyw fefryn o don;
Cael gwasanaeth byr ar fwrdd llong lonydd ynghanol Môr Galilea;
Sefyll ym Methlehem yn y fan a'r lle y tybir y ganwyd y baban Iesu;
Sefyll yn Jerusalem yn y fan a'r lle y tybir y croeshoeliwyd y Gwaredwr;
Y Gwasanaeth Cymun ar lethr Mynydd y Gwynfydau;
Gweld yr ogof yn y pellder, agos lle bu'r Sgorliau'r Môr Marw yn aros am oesoedd i ryw grwtyn bach ar ei asyn i'w ffeindio'n ddiymdrech;
Gweld, o'r diwedd, deuddeg ffenest Marc Chagall, pob un yn cynrychioli un o lwythau Israel;
Dringo Masada, y lle rhyfedd hwnnw nepell o'r Mor Marw, creadigaeth Herol ond beddrod y Zelotiaid nad oedd am oddef ymherodraeth Rufain. Stori wefreiddiol yw stori Masada;
Cael fy syfrdanu wrth gerdded i mewn i dywyllwch daear, gweld cannoedd o ganhwyllau bychain a chlywed llai o'r gwacder yn adrodd enwau plant, rhai o'r chwe miliwn o Ewrop a losgwyd dan law dyn;
Clywed, a ninnau yn ein horiau ola' yn Israel, Gymro yn canu o'r 'Elijah' mewn Eglwys Lutheraidd yn Tel Aviv;
Hyn i gyd a llawer llawer mwy.

Dilys Lloyd

---

Fis diwethaf treuliais wythnos yn Israel - fy ymweliad cyntaf â'r wlad yr oeddwn wedi clywed gymaint o sôn amdani ar hyd fy oes. Yr oedd y llefydd yn gyfarwydd iawn mewn dychymyg - Jeriwsalem, Mor Galilea, Bethlehem, Nazareth etc. ond y cwestiwn diddorol oedd pa mor agos i realiti heddiw oedd y darlun dychmygol. Dyma'r argraffiadau dyfnaf.

Gwelais Jeriwsalem am y tro cyntaf o Fynydd yr Olewydd am bump o'r gloch y bore fel yr oedd yr haul yn dechrau codi ac yn taro ar y ddinas oddi tanom. Dinas gymharol fechan o faintioli, mewn gwirionedd yw Jeriwsalem, tua'r un maint a Bryste ond dim ond rhan fechan yn unig o'r ddinas fodern yw'r hen Jeriwsalem. Yn yr hen ran mae'r strydoedd yn gul ac yn aml gyda thô uwchben ac y mae grisiau ymhob man gan fod yr hen ddinas ar fryn. Mae'r Jeriwsalem adeg Crist tuag ugain troedfedd islaw lefel y strydoedd presennol ac yma ac acw fe welir cloddio archaeolegol ac yn y gwaelodion olion yr hen strydoedd gynt. Nid oes neb yn sicr lle'r oedd yr hen furiau amddiffynol yn oes Crist a does dim sicrwydd chwaith am union lwybr y

Via Dolorosa gan fod archaeolegwyr o'r farn nad oedd y rhan fwyaf o'r route presennol mewn bodolaeth bryd hynny. Y mae yna hefyd ddau le gwahanol sy'n hawlio bod yn fangre bedd Crist - un mewn eglwys fawr a'r llall mewn gardd hyfryd sy'n eiddo i gymdeithas Brydeinig. A dau le hefyd yn hawlio lleoliad y groes.

Un syndod arall yn Jeriwsalem oedd y deml. Roeddwn wedi dychmygu'r deml erioed fel rhyw fath o eglwys gadeiriol fawr ond mewn gwirionedd Caer ar ben mynydd Moriah oedd y deml. Hwn yw'r lle sancteiddiolaf i'r Iddewon a'r trydydd mwyaf sanctaidd i'r Moslemiaid - yn dilyn Mecca a Medina. Heddiw, mosg Mohametanaidd gyda tho crwn euraidd yw canolfan y deml. Mae'r rhan helaethaf o Jeriwsalem yn dref fodern hardd a choediog gyda phroblem trafnidiaeth trwm.

Syndod arall a gefais oedd sylweddoli mor fychan yw gwlad Israel. Dim ond rhyw hanner awr mewn car yw'r daith o lan Môr y Canoldir i Jeriwsalem i'r ffîn ogleddol sydd ar ucheldirau Golan. Ar wahan i ddiffaethwch Sinai i lawr i'r Môr Coch, nid yw'r wlad yn llawer mwy na De Cymru ac y mae pob modfedd sgwar o'r tir wedi ei drin a'i ddatblygu i ryw bwrpas. Y mae ffermydd a choedwigoedd ymhob man ac y mae'n amlwg fod yr Israeliaid wedi llafurio'n galed iawn ers iddynt ennill eu hanibyniaeth yn 1948. Pedwar miliwn a hanner yw poblogaeth Israel heddiw ac y mae gwasanaeth milwrol yn orfodol i fechgyn a merched gyda'r dynion yn parhau yn y 'reserve' milwrol tan dros 50 oed. Mae egni a brwdfrydedd yr Israeliaid i'w deimlo ymhob man ac ni welais ddim arwydd o dlodi yn unman. Serch hynny mae ganddynt un broblem ddyrus, sef, cyflenwad digonol o ddŵr. Mae 75% o'r dŵr yn dod o Fôr Galilea yng ngogledd uchaf y wlad a dim ond rhan fechan o Afon Iorddonen sydd yn llifo drwy Israel. O ucheldirau Golan ac o ffynhonau y daw'r dwr i mewn i Fôr Galilea sydd, gyda llaw, tua deuddeg milltir o hyd a naw milltir o led. Cefais daith hyfryd mewn llong bleser ar Fôr Galilea a gweld ucheldiroedd Golan tuag at Libanus i'r gogledd. Yn amser Herod yr oedd pymtheg o drefi o gwmpas Môr Galilea ond erbyn heddiw un dref sydd yno, sef Tiberias.

Mae Israel yn wlad hardd, lân, fodern ac yn llawn o ddiddordeb. Mae yna westai moethus a bwyd da ond mae'r prisiau yn uchel. Os am wario pythefnos o wyliau yno, fy nghyngor fyddai aros mewn gwesty ar lan Môr y Canoldir, yn rhywle fel Tel Aviv. Mae digonedd o wibdeithiau dyddiol i bob lle o ddiddordeb Maent yn ddigon agos i wneud hynny.

Geraint Walters

# Ac yr Oedd yn y Wladfa Honno . . .

Tachwedd y 1af. Yn annisgwyl ~~medden nhw y~~ mae hiraeth yn cydio yn y Cymro oddi cartref. Roedd hi'n 2 o'r gloch, Sadwrn, Hydef 24, yn Gimnaso enfawr Trelew, Eisteddfod Chubut 1987 ar ddechrau, y Swyddogion yn ymgynghori'n nerfus ar y llwyfan, y gynulleidfa (hynny yw, y rhai oedd wedi cyrraedd) yn setlo, y technegwyr yn gosod y meics a'r goleuadau, a ninnau wedi rhyw 10 diwrnod yn y Wladfa yn dechrau teimlo ein bod yn cael ein traed o danom ni yn yr awyrgylch Sbaeneg Gymraeg ryfedd sydd ohoni yma. Dyna gyflwyniad ar y gitar i ryw gân yn dod dros yr uchelseinydd, a rhyw naws Groegaidd neu Sbaenaidd yn perthyn iddo. Ond nage, dyma lais Dafydd Iwan, gyda tinc heriol-drist yna sy'n unigryw iddo, yn llenwi'r neuadd. A dyna ni ein dau yn sydyn yn ymdeimlo â phellter yr Henwlad a newyddus ein byd.

Mae nhw'n dweud fod y Sbaeneg yn disodli'r Gymraeg yn yr Eisteddfod. Boed hynny fel y bo, roedd y cystadlaethau agoriadol yn cynnwys eitemau cyfarwydd - cân ddiweddar 'Nadolig pwy a ŵyr'; adroddiad 'Y Barnwr'; cyd-adrodd darn hyfryd o 'Dringo'r Andes' a'r prif gorau'n canu 'Teilwng yw'r Oen' yn ddiweddglo gwefreiddiol i'r diwrnod. Nid beirniad cerdd ydw i, na mab i feirniad cerdd, ond o'r hyn a glywais i trwy'r dydd, yr uchafbwyntiau bob tro oedd cyfraniadau Côr y Camwy, dan arweiniad Edith Macdonald. Dyma un sydd â gwir ddychymyg cerddorol a chlust at rythm a phwyslais. Dim rhyfedd bod Gwyn Williams, Côr y Traeth, yn huawdl yn ei glod ohoni y noson wedyn yng Nghymanfa Ganu'r Eisteddfod yng nghapel Bethel, Gaiman. Eitem 24 ar raglen y Steddfod oedd y Sillon Bardico - y Cadeirio. Y rheol Gymraeg oedd yn teyrnasu yn awr, a rhyfedd o beth oedd gweld y gynulleidfa o ryw fil a hanner, y mwyafrif ohonynt yn ddi-Gymraeg, gan gynnwys Côr y Mendosa pell, yn cael eu sugno i drobwll hudol yr hen ddefodau.

Wythnos o seremoniau yw hi wedi bod. Ar y dydd Mawrth blaenorol dyna Mair Davies yn cau'r Siop Lyfrau Gristnogol, sydd gymaint o fan cyfarfod i Gymry'r dre, ac yn mynd a Dafydd Wyn a finne i gofeb Lewis Jones, sef cerflun o ryw 50 troedfedd o uchder. Dyna lle roedd band, arweinwyr milwrol, maer y dre, corau plant a thorf o bobl o bob math yn dathlu 'diwrnod Trelew' Bwriad y dathlu yn ôl araith y Maer, oedd cydnabod cyfraniad yr arloeswyr cynnar, ond hefyd hybu ymdeimlad o undod ac o hunaniaeth. Dyma sy'n anodd i'w meithrin, mewn gwlad mor enfawr ac amrywiol, mewn tref fel Trelew sydd yn tyfu ac yn ymestyn bron o flaen eich llygaid, gyda thai newydd ar hanner eu hadeiladu ar gyrrion bob ochr iddi. Y band yn chwarae i gloi'r seremoni a dyma'n sydyn a difyfyr, rhyw ddawnsio urddasol a lliwgar yn torri allan (a May Hughes yn ei arwain!).

Mae'r Cymraeg da sydd yn ein cwmpasu yn rhinwedd ein cysylltiad gyda'r capeli yn gallu bod yn dywyllodrus, gan eich gyrru i feddwl eich bod yn fwy cartrefol nag yr ydych chi yn y gymuned Sbaeneg hon. Mae bod ar goll ynghanol drysfa ei strydoedd newydd, hir, syth, didarmac, a'r haul ar eich cefn, y llwch ymhob man a neb mewn golwg, yn eich gosod chi yn ôl yn eich lle. Yn y sefyllfa yna oeddwn i ar drydydd diwrnod ein hymweliad. Ond, gwelwn ddynes yn y pellter yn cerdded tuag ataf trwy'r llwch a'r gwres. Dyma fi'n holi'r ffordd iddi ac yn dechrau trwy esbonio mai Cymro ydw i - "Soy Gales". A dyma rhyw floedd o gyfarchiad yn atseinio ar hyd stryd sydd rhyw 8000 o filltiroedd o Penylan Place "Pregethwr"! Digwyddais ddod ar draws Ilma H. de Williams - ac mae'r atgof am ei sgwrs gynnes a'i hiwmor direidus, ynghyd â'r cymorth a'r croeso arbennig, yn fwy na digon i'n cadw rhag ein trechu gan yr hen hiraeth yna. Daw hyn gyda chofion cynnes Phil Ellis a'r teulu (474 Alte Brown, DepC, 9100 Trelew) i bob un o ddarllenwyr Y Dinesydd.

(Y Golygydd wrth ei bodd yn cael yr hanes ac yn cydgerdded a chydfwynhau camrau Phil hyd strydoedd Trelew, yr Eisteddfod a'r Gymanfa - ew, mae ei thraed yn cosi!).

## Gwlad Arall

Wel, dim hosan y Nadolig yma am y tro cyntaf erioed. Bydd Sion Corn wedi gwneud ei waith yng Nghymru pum awr cyn i ni godi yn Bosta, a hwn fydd y tro cyntaf i mi fod oddi cartref ar ddydd Nadolig.

Diolch byth cefais wahoddiad i dreulio'r dydd gyda ffrind o'r gwaith a'i deulu - llond tŷ o Eidalwyr swnllyd - a'r famgu yn 98 yn gwylio drostyn. Eidalwyr ydyn nhw er eu bod yn America ers dwy genhedlaeth.

Beth bynnag fydd y tywydd yng Nghymru, mae'n oer iawn yma. Cawsom ni Nadolig bach fel teulu ym mis Tachwedd cyn i mi ddychwelyd at fy ngwaith ac fe agorais fy anrhegion pryd hynny, ond rydw i wedi ail bacio'r cyfan ac mae nhw gyd yn fy nisgwyl mewn cornel.

Ers wythnosau mwynhau partis fu'r hanes a phrofiad newydd oedd dysgu sut i symud ar skiis ar yr eira yn Vermour! Ond ar ddydd Nadolig does unman yn debyg i gartre a dyna lle hoffwn i fod.

Jane Wynn Jones.

## Ac Eto

Prifysgol Fudan,
Shanghai.

Annwyl Pawb,

Dwi'n dal i fod yn hapus iawn yma yn Shaghai er bod y gaeaf wedi cyrraedd ar ôl wythnosau o haul poeth ac awyr las. 'Dan ni'n crynu yn ein gwlau. Mae gennym ni banorama hyfryd o'r stafell - afon yn ddu o garthion! Mae dyn yn arfer gyda'r fath bethau! Heblaw am hynny, mae'n stafell reit gyfforddus.

Mae Shanghai yn hollol anhygoel; mae pob dim mor newydd ac mor wahanol i beth oeddwn i'n ddisgwyl. Mae'n llawn bywyd, sŵn, lliw a BEICS, miloedd ohonyn nhw yn canu 'u clychau. 'Dwi erioed wedi gweld na dychmygu cymaint o bobl mewn un lle ar yr un pryd. Mae nhw'n llawer mwy joli a chlên nag o'n i'n disgwyl ac yn chwilfrydig ac yn rhoi sylw mawr i ni, y "trwynau mawr", ac yn dod i siarad. Os oes sgwrs yn cychwyn mae tyrfa'n casglu o'n cwmpas.

'Dwi'n teimlo'n llawer mwy cartrefol ers imi gael beic er ei bod yn beryg bywyd am nad oes unrhyw fath o reolau'r ffordd fawr - y peth mwyaf neu gyflymaf sy'n hawlio'r ffordd. Nid oes braidd ddim ceir a rhaid i'r ychydig ganu'r corn yn ddibaid. Mae beicio'n llawer mwy gyfleus na bys, sydd fel bod mewn scrym rygbi am hanner awr. Mae mynd ar y trenau yn brofiad unigryw a dweud y lleiaf; mae nhw'n anghredadwy. Pobl yn sefyll, swatio ac eistedd ym mhob cornel ac yn syllu arnom ni.

'Dan ni'n mynd i nofio yn y baddonau cyhoeddus - sy'n eitha profiad eto. Mae'n un peth cael pawb i sylw arnom ni yn y stryd ond peth arall mewn pwll nofio ac yn y cawodydd.

'Dwi wedi dechrau gwersi 'Tai Chi' sydd yn anodd iawn ond mae gweld yr hen bobl wrthi ar y palmentydd yn codi awydd i ddysgu.

nilledyn newydd cyntaf - crys sidan du wedi ei wneud yn arbennig - am tua £2. Mae'r sidan yma'n anhygoel.

Dydy'r bwyd yn yr hostel ddim yn dda ac mae trip i'r cantîn yn antur ar ei ben ei hun, ond mae digonedd o lefydd bwyta da yn Shanghai ei hun. Mae'n bosib prynu bwyd ar y strydoedd, sydd fel un farchnad fawr yn llawn o bethau fel nadroedd byw a ieir.

Mae safonau gwahanol i'r brodorion a'r tramorwyr - gwahanol brês, gwahanol westai, gwahanol seddau ar y trên, ond 'dan ni'n cael ein cyfrif fel brodorion a'n trin fel y bobl gyffredin sy'n brofiad da. Ddaru ni fynd am ddwy noson i'r wlad a gweld y gwahaniaeth rhwng gwestai'r tramorwyr - cynfasau gwyn glân am £8 y noson sy'n ddrud iawn yma a'r budreddi a'r mosquitoes yn y llefydd rhad.

Y penwythnos diwethaf, penderfynon ni ddathlu penblwydd ffrind trwy gael brecwast, y cyntaf i mi ei gael ers i mi gyrraedd, yn y Sheralon, un o'r gwestai crand gwaharddedig i'r brodorion. Anodd credu bod y fath le'n bodoli, gyda'i foethusrwydd, pwll nofio, bars, discos, bwyd, adeiladau anhygoel, ynghanol slymiau Shanghai. Mae'r gwrthgyferbyniad yn anodd ei dderbyn. Mae fel bod ar blaned arall a noson o fwynhau i Americanwr yn gyflog wythnos i'r waiter. Beth bynnag, cawsom ni frecwast enfawr, a'i fwynhau'n fawr ond rywsut roedd yn rhyddhad gadael y lle a dod yn ôl i'r byd real. Rhyfedd meddwl bod adeiladau fel y Peace Hotel, Y lle i fod yn ur ugeiniau a'r tridegau, a lle'r oedd Noel Coward a'i ffrindiau'n mynd, yn dal yma.

Heb gael hyd i neb sy'n siarad Cymraeg er fy mod wedi dysgu ychydig o Gymraeg i ffrindiau Chinese.

Cofion gorau,

CATRIN.

---

Ar ôl 7 mis yn gweithio ym Mallorca efo cwmni gwyliau Global, hen bryd oedd hi, o'n i'n meddwl, i estyn fy ngorwelion, a chael blas ar weithio rhywle arall.

"Beth am Tenerife?" medden nhw. "Iawn" medde fi. Felly ar ôl un diwrnod adre (a hithe'n bwrw glaw wrth reswm) dyma fi'n hedfan o Rŵs i Tenerife ar ddiwedd mis Hydref am dri mis arall yn yr haul.

Y sioc gyntaf oedd gweld eira! Mynydd llosg (volcano) yw pig uchaf yn holl Sbaen, dros 12,000 troedfedd, a hyd yn oed yma, bron yn y torfannau, mae trwch o 3 troedfedd o eira ar y copa'n barod. Mae hi'n werth teithio i ben Teide, hyd yn oed os ych chi wedi anghofio pacio'r dillad isa thermal, fel wnes i, ar ddiwrnod clir fe welwch yn glir ynysoedd eraill y Canari - Gran Canaria, Lansarote, a'r rhai llai adnabyddus hefyd.

Wedi dod dros y syndod o weld eira, amhosib oedd colli'r ffaith bod hi wir yn boeth yma. Peth braf yw crwydro mewn siorts a chrys-T yng nghanol mis Rhagfyr, cysgu efo'r ffenest ar agor, a hyd yn oed mynd i nofio yn yr Iwerydd. Edrych mlaen at dorheulo ar ddydd Nadolig.

O'n i wastad yn hoff o fananas, ond wir i chi o fewn pythefnos o gyrraedd 'ma, o'n i wedi gweld a bwyta digon o fananas am flwyddyn! 'Dyn nhw ddim yn tyfu'n naturiol 'ma, mae'n debyg - wedi'u plannu 'ma ar ôl i'r diwydiant gwin fethu yn y ganrif diwetha. Ond erbyn hyn mae bananas ym mhobman - ma' nhw'n tyfu ar ochor y ffyrdd hyd yn oed, ac mi allwch fod yn siwr taw lori bananas sydd ar flaen unrhyw traffic jam ar Tenerife. Fe ganodd Madonna gan o'r enw 'La Isla Banita' - wel 'La Isla Banana' yw hyn, heb os.

Wel Nadolig Llawen i chi gyd.

Sîan Parry Jones

GWESTY FFERM
PENBONTBREN

Glynarthen, Aberteifi, Dyfed.
SA44 6PE. Tel. 0239-810248.

DEWCH I'R GORLLEWIN
I GROESAWU 1988

NOS GALAN - 'WRTH Y BONTBREN'

BWFFE BANG


ADLONIANT GAN GRŴP GWERIN
"GWERGAN"

DISCO GAN 'DAI'

YSTAFELL (EN SUITE)
BRECWAST CYMREIG LLAWN
£25 Y PERSON -SY'N RHANNU

CEWCH GLYWED CANU
CALENNIG FORE GALAN!

Rhagfyr 24ain 1987
CYFARFOD PLYGAIN
Trwy garedigrwydd Eglwys a Chynulleidfa y Bedyddwyr, Llysfaen.
am 8 yr hwyr




Anrheg i Bawb!

I blant bach—
LLYFR ABC Elwyn Ioan—llawn lliw £2.25

I blant mwy—
YN DDISTAW BACH Angharad Tomos—
y DEGFED yng Nghyfres Rwdlan! £1.65

I blant mawr—
DOETHION ABERDWLI Dafydd Parri—
straeon anhygoel am bentref o ffyliaid £1.95
SASGWATS Dyfed Glyn—nofel gyffrous am fwystfil mawr blewog £1.75

I oedolion—
YSGLYFAETH Harri Pritchard Jones—
nofel o ffilm wych S4C a'r 1af yn y gyfres LLÊN GYFOES £2.95
HEN GAROLAU PLYGAIN
Geraint Vaughan-Jones—24 ohonynt, hen nodiant a sol-ffa £3.95
. . . a'n DYDDIADURON POCED a DESG:
anrhegion perffaith am £1.95 a £5.95

Mynna gopi o'n Catalog newydd!

Y Lolfa

TALYBONT DYFED SY24 5HE
097086 / 304

# SÊR Y DINESYDD

EIRY PALFREY

**AERIES:** Byddwch yn llai hunanol o lawer yn ystod yr Ŵyl eleni nas buoch ers tro, cyfle gwych i wneud rhywbeth dros eich cyd-ddyn neu eich hoff elusen, cewch ddiolch a gwerthfawrogiad am fod mor ystyrlon. Byddwch yn llawn hwyliau da ac yn ddireidus tu hwnt - ac yn teimlo'n gariadus ac yn rhywiol iawn!

**TAURUS:** Mae 'na awydd mawr arnoch i wario, a gwario dros y Nadolig - gwnewch yn siwr eich bod ar delerau da gyda'ch rheolwr banc! Efallai bydd gofyn i chi gydymdeimlo a chyfaill agos - byddwch garedig Mae hwn yn gyfnod gwych i ad-drefnu eich gyrfa - neu i newid trywydd yn eich gwaith. Anelwch yn uchel, chewch chi mo'ch siomi!

**GEMINI:** Hwn fydd y cyfnod gorau i ail-wampio pob agwedd o'ch bywyd, cyfnod ardderchog i spring-clinio'n ysbrydol. Taflwch allan bob agwedd o'ch bywyd sy'n eich blino. Efallai bydd gair doeth o gyngor gan rywun yn eich gorfodi i ail-feddwl ac ail-ystyried un penderfyniad pwysig. Peidiwch ag ofni'r newid - croesawch ef!

**CANCER:** Mi fyddwch yn teimlo'n sensitif ac emosiynol iawn y Nadolig yma. Peidiwch ag ofni colli deigryn dros y pethau a fu, byddwch yn teimlo'n well o lawer ar ôl gwneud. Ond yna edrychwch i'r dyfodol ac ymwrolwch, mae dyddiau gwell i ddyfod! Gan eich bod mor deimladwy ceisiwch osgoi cweryla gyda'ch teulu neu'ch cyd-weithwyr.

**LEO:** Bydd hwn yn dymor i ddathlu a mwynhau, a does neb yn hoffi gwneud hynny'n fwy na chi, felly mwynhewch - ond byddwch yn barod am yr annisgwyl! Fe all rhywbeth fynd o'i le gyda'r cynlluniau mwyaf gofalus ar hyn o bryd. Mae cyfnod newydd cyffrous ar fin dechrau yn eich bywyd, ond cymrwch ofal - mae rhywun am eich gwaed!

**AQUARIUS:** Mae hi'n bryd bellach i chi gau ambell bennod yn eich bywyd, ceisiwch wneud hynny'n llawen. Efallai bydd rhywun agos i chi yn symud i ffwrdd cyn bo hir. Parhewch i gynllunio tuag at y dyfodol ond byddwch yn barod am ambell sioc ar hyd y ffordd. Efallai byddwch chi'n synnu'ch cymar gyda'ch ymddygiad anghyffredin - a pham lai?!

**PISCES:** Rydych yn awyddus iawn i helpu'ch cyd-ddyn nawr, da iawn chi, ond peidiwch gadael i unrhyw un gymryd mantais o'ch haelioni. Fe all digwyddiad annisgwyl newid eich cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn gyfangwbl. Mi ddylech fod yn llwyddiannus iawn yn y gwaith, efallai bod dyrchafiad neu swydd newydd yn yr arfaeth.

**VIRGO:** Gartre fyddwch chi eisie bod y Nadolig 'ma gyda'ch teulu o'ch cwmpas, er na fydd hynny'n fêl i gyd chwaith, fe allai ambell aelod o'r teulu beri cryn drafferth i chi. Ceisiwch gymryd amser i roi trefn ar eich materion ariannol er mwyn cael bod yn barod i wynebu biliau annisgwyl. Efallai cewch newyddion am fabi.

**LIBRA:** Bydd bywyd yn felys iawn i chi'r Nadolig yma, cewch eich temtio i fod yn ddiog - a pham lai - rydych chi wedi gweithio'n galed iawn yn ystod y misoedd diwetha 'ma ac yn haeddu hoe fach. Rhowch eich hunan yn gyntaf am dro, rydych chi'n gallu bod yn rhy barod eich cymwynas weithiau, a gadewch i eraill eich tendio chi!

**SCORPIO:** Cyfnod mewnblyg braidd fydd hwn i chi. Bydd awydd encilio arnoch ac osgoi cwrdd a phobl. Cymrwch fantais ohono i wneud yr holl orchwyl-ion diflas y buoch yn eu gohirio cyhyd. Bydd rhaid eu gwneud rhywbryd! Efallai y byddwch chi'n codi gwrychyn rhywun mewn awdurdod. Tâw piau hi faint bynnag y demtasiwn i ddial.

**SAGITTARIUS:** Cewch sawl cyfle i wella'ch byd yn ystod cyfnod yr Ŵyl eleni yn eich gwaith ac yn eich bywyd personol. Cymrwch fantais ohono, efallai na chewch gystal cyfle am sbel fawr. Cymrwch ofal wrth ddelio gyda phobl eraill mae na beryg y byddwch chi braidd yn rhy fawr i'ch sgidie - peidiwch sathru ar draed neb!

**CAPRICORN:** Nadolig cymysglyd fydd hwn pan fyddwch yn llawn hwyliau un diwrnod ac yna'n teimlo'n fewnblyg a distaw ddiwrnod arall, os am osgoi iselder ysbryd, da chi cymysgwch gyda'ch teulu a'ch cyfeillion. Ddaw'r gorffennol fyth yn ôl a fedrwch chi ddim dylanwadu ar y dyfodol chwaith, felly canolbwyntiwch ar wneud y gorau o'r presennol, efallai y cewch chi siom o'r ochr ore!

---

# Arddangosfeydd

## RHAGFYR/IONAWR

YR AMGUEDDFA GENEDLAETHOL

**Y Prif Adeilad, Parc Cathays**
**Campweithiau**
Yn hynny o'r orielau sydd ar ôl tra adnewyddir yr adeilad, dangosir ychydig o gamp-weithiau artistiaid fel, Richard Wilson, Canaletto, Manet a Monet, Renoir, Van Vogh, Rodin a Ceyanne

**Tŷ Turner, Heol Plymouth, Penarth**
**Peintiadau Cyfoes**
Oherwydd prinder lle yn y prif adeilad yn Cthays, wele eraill o ddarluniau gwych o gasgliad yr Amgueddfa - Gwen ac Augustus John, Ceri Richards, Kyffin Williams, Josef Herman ac eraill.

**Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan**
**Sampleri'r Amgueddfa, 15 Rhagfyr - 15 Ionawr**
Detholiad o'r casgliad eang
**Arferion Nadolig, 15 Rhagfyr - 15 Ionawr**
Ffotograffau yn gysylltiedig â'r Nadolig.
(Rhaid talu mynediad i weld y ddwy arddangosfa yma)

**Amgueddfa Diwydiant a Môr, Heol Bute**
**Y Diwydiant Coll, Tan Ionawr 31**

Darlnio agwedd o hanes diwydiannau yn yr hen Sir Aberteifi.

**Chapter, Heol y Farchnad, Canton**
**Yr Oriel**
**O Fewn Côf, Graham Crowley, Tan 20 Rhagfyr**

**Yr Ail Fan**
**Gwneuthurwyr Printiadau yng Nghymru - Tan 20 Rhagfyr**

**Oriel, Heol Siarl**
Arlunydd Gwadd Euan Uglow
12 Rhagfyr - 16 Ionawr
Arddangosfa Gwasanaeth Amgueddfa Swydd Cleveland.

**Ffotogallery, Heol Siarl**
Peinriadau ar Werth,
12 Rhagfyr - 16 Ionawr.

Rhifyn Chwefror: Dylid anfon holl ddeunydd ar gyfer rhifyn Chwefror at y Golygydd, Coed y Pry, 3 Llandennis Avenue, Cyncoed, Caerdydd, erbyn Ionawr yr 20fed.

CERFLYN NEWYDD I'R AMGUEDDFA GENEDLAETHOL

Y mis diwethaf derbyniodd yr Amgueddfa gerflyn sef portread o ben Y Gwir Anrhyd-eddus yr Arglwydd Elwyn Jones, P.C., C.H., LL.D., Arglwydd-Uchel-Ganghellor Prydain Fawr 1974-79.
Gwaith Ivor Roberts-Jones yw'r cerflun ac fe'i cyflwynir gan gyfeillion ac edmygwyr.
Mae'r casgliad o bennau yn cynyddu ac fe ychwanegir hwn at eraill fel Syr Geraint Evans, Saunders Lewis, Syr Cennydd Traherne a'r Gwir Anrhydeddus Tasker Watkins.



**GWYL GERDD DANT GENEDLAETHOL CYMRU**
**PWLLHELI A'R CYLCH**

Drwy gyfrwng nifer o luniau i'w lliwio caiff plant Cymru gyfle da i ymgyfarwyddo â gwahanol agweddau o hanes y Beibl wrth ddathlu pedwar canmlwyddiant Beibl yr Esgob William Morgan y flwyddyn nesaf


Cyhoeddir y llyfr lliwio - Beibl i Bawb - gan Bwyllgor Cyhoeddusrwydd Gŵyl Cerdd Dant Pwllheli a'r Cylch 1988 gyda chydsyniad Pwyllgor Dathlu Cyfieithu'r Beibl. Un o'r lluniau ynddo yw clawr Beibl newydd 1988.

Mae yn y llyfr ddwsin o ddarluniau i'w lliwio, a gallai pob un fod yn sylfaen i olrhain peth o hanes y Beibl. Mae ynddo, er enghraifft, lun o William Morgan ei hunan, ei gartref yn y Wybrnant, ei gofgolofn ef a'i gynorthwywyr yn Llanelwy; Thomas Charles o'r Bala a Mari Jones, myneich yn ysgrifennu, argraffydd yn argraffu, llun wyneb-ddalen Beibl 1588 ynghyd a nifer o faneri i gyfleu 'Beibl i bawb o bobl y byd'.

Yr arlunydd yw R. Delwyn Jones, Pwllheli, prifathro Ysgol Gynradd Edern, Llŷn, a'r argraffwyr, Gwasg Gwynedd, Caernarfon. Am bunt mae'n anrheg Nadolig delfrydol.

Os ydych am brynu copiau ewch i'ch siop lyfrau leol neu gysylltu ag Ysgol Cymerau, Pwllheli.

Dyfed Evans,
Swyddog Cyhoeddusrwydd.



Prifysgol Cymru

**CWRS CEFNDIR 1988**

ar gyfer dysgwyr profiadol yng Ngholeg Prifysgol Dewi Sant
Llanbedr Pont Steffan
25.3.88 - 30.3.88
Cost: £65.00
Manylion
o Ganolfan Dysgu Cymraeg i Oedolion
22 Heol y Parc
Caerdydd CF1 3DQ
Ffôn (0222) 390380

**COEDEN NADOLIG**
**AMGUEDDFA WERIN CYMRU**
**DYDD MAWRTH, 15 RHAGFYR, 1987**

Bydd goleuo Coeden Nadolig 45 troedfedd, o flaen Amgueddfa Werin Cymru, nos Fawrth, 15fed o Ragfyr, 1987, am 7.30 o'r gloch, yn ddigwyddiad nodedig i ddathliadau'r Nadolig y noson honno.

Bydd y goeden yn ganolbwynt i lu o weithgareddau ac arferion y Nadolig fydd yn digwydd o gwmpas yr adeiladau yn yr Amgueddfa Werin, gan ddechrau gyda chroeso twymgalon gwin cynnes a mins peis i bawb. Bydd y Fari Lwyd yno i "ofyn am gennad i ganu", ynghyd â dawnswyr Cwmni Dawns Werin Caerdydd; Sion Corn (Anhysbys) wrth y tân yn ffermdy Kennixton yn dosbarthu triog, a chyfle i brynu losin (neu dada) wedi eu gwneud yn arbennig mewn dull traddodiadol ar gyfer yr achlysur.

Bydd y tai wedi'u hardduno ag addurniadau traddodiadol y Nadolig ac wrth y tân yn un o fythynod Rhyd y Car cewch wrando ar storiwr (Mallt Anderson) yn adrodd storiau gwerin.

Bydd côr plant Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd, yr Eglwysnewydd, Caerdydd, yn canu carolau o gwmpas y goeden i gyfeiliant Band Prês Ieuenctid Abertyleri dan arweiniad Andrew Hicks, a chyfle wrth gwrs i bawb ymuno wrth i'r carolwyr symud o le i le a chyrraedd Capel Pen-rhiw i ganu carolau.

Yng nghyntedd yr Amgueddfa bydd dwy arddangosfa - un yn arbennig ar y Nadolig a'r llall ar Sampleri.

Bydd holl ddarpariaethau'r Amgueddfa ar agor y noson honno hefyd; y Siop a'r Tŷ Bwyta sy'n cynnig cinio i'r rhai fydd wedi trefnu ymlaen llaw, ac i rai sychedig bydd yno far.

Er y bydd yr Amgueddfa wedi ei goleuo gyda thrydan a chanhwyllau, a'i chynhesu gyda thannau ymhob adeilad, bydd yn ddoeth dod a golau fflach a dillad cynnes. Does dim dwywaith amdani, bydd hon yn noson i'w chofio.

Pris mynediad fydd £2.00 i oedolion a £1.00 i blant.

Noddir y Goeden Nadolig gan Gwmni TETRA PAK, (WRECSAM) CYF., BEDWELL ROAD, CROSS LANE, WRECSAM, Cwmni gwneud pecynnau papur o Sweden.
Noddir y goleuadau ar gyfer y Goeden Nadolig gan TRYDAN DE CYMRU.

**Ar gyfer noson Y Goeden Nadolig yn Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, ar Ragfyr 15fed, byddwn yn addurno rhai o'r tai yn yr Amgueddfa. A gawn ni apelio ar i'r darllenwyr sy'n berchen neu sy'n gwybod am hen addurniadau Nadolig o'r 1950au, 1920au neu'r 1890au o unrhyw fath, adael i mi wybod gan y buaswn yn falch iawn o fedru eu defnyddio ar yr achysur hwn.**

**Cysyllter â :**
**Tecwyn Vaughan Jones,**
**Amgueddfa Werin Cymru,**
**Sain Ffagan,**
**CAERDYDD. CF5 6XB**
**Tel. 569441**



HWYL A FFLAG
SIOE NADOLIG I'R TEULU

Codi Stêm
gan
Gwen Ellis a Gruffudd Jones

THEATR
SHERMAN

IONAWR 19 -27
ffôn: CAERDYDD 30451

Dydd Llun- dydd Gwener 10.00 y bore a 1.15 y prynhawn
Dydd Sadwrn 2.00 y prynhawn
Tocynnau dydd Llun - dydd Gwener £3.10
dydd Sadwrn £5/£6 Oedolion
£4/£4.50 Plant